# Cofnodion Cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol

## Sir Gaerfyrddin

## Dydd Iau 22 Ionawr 2026

## Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Tre Ioan - 4pm

**Yn Bresennol:** **Aelodau:**

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Richard Leggett (RL) - Is-gadeirydd
Phil Snaith (PS)
Sean Brown (SB)
Julie Sweet (JS)
Jillie Gardner (JG)
David Gravelle (DG)
Wyn Owen (WO)
Karen Burch (KB)
Tara Sutcliffe (TS)
Sandra Downey (SD)
Laura Grant (LG)

**Ysgrifennydd** **-** Caroline Ferguson (CF) – Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin

**Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd:**

Christopher Nelson (CN)
Gary Baxter (GB)
Ray Davies (RD)

**Ymddiheuriadau:** **Aelodau:**

Julie James

**Ymgynghorwyr/Sylwedyddion/Siaradwyr :**

Y Cynghorydd Edward Thomas
Y Cynghorydd Aled Vaughan Owen
Neil G Thomas

Nodyn:
Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin ac mae HTC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Hawliau Tramwy Cyhoeddus
Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru
Mae LlC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Llywodraeth Cymru

| EITEM | CAMAU GWEITH REDU |
|---|---|
| **Eitem 1 - CROESO AC YMDDIHEURIADAU**<br><br>Croesawodd MH y fforwm.<br><br>Darllenodd MH / CF yr ymddiheuriadau a oedd wedi dod i law.<br><br>Mynegwyd siom ynghylch y ffaith nad oedd rhai aelodau etholedig wedi gallu bod yn bresennol ond nodwyd bod presenoldeb aelodau'n well o lawer ers y tymhorau blaenorol. Efallai y bydd rhoi dyddiadau cyfarfodydd yn y dyddiadur yn gynharach yn helpu.<br><br>CF i roi dyddiadau cyfarfodydd yn y dyddiadur 1 mis yn gynharach | CF |
| **Eitem 2 – Cyflwyniad Rheoli Tiroedd a Mynediad CSC**<br><br>Cyflwynodd GB ei hun i aelodau'r fforwm, rhoddodd gyflwyniad i is-adran Amgylchfyd Cyhoeddus CSC ac amlinellodd ei weledigaeth, ei dyletswyddau allweddol, ei swyddogaethau, ei strategaethau, ei pholisïau a'i chynlluniau.<br><br>Crynodeb o gyfleoedd mynediad o dan gyfrifoldeb Amgylchfyd Cyhoeddus a sut mae'n cael ei reoli a'i gynnal.<br><br>Yr heriau a wynebir wrth reoli mynediad o dan reolaeth yr Amgylchfyd Cyhoeddus a chyflawni'r dulliau newydd a amlinellir.<br><br>Sesiwn Holi ac Ateb Ddilynol<br><br>Sleidiau i'w rhannu<br>Rhannu Cylch Gorchwyl yr Amgylchfyd Cyhoeddus gyda'r Fforwm Mynediad Lleol<br>GB i wirio a oes cosbau am ddiffyg cydymffurfiaeth ar safleoedd CSC a drosglwyddir | GB/CF<br>GB/CF<br>GB |
| **Eitem 3 – DIWEDDARIAD LLWYBR DYFFRYN TYWI**<br><br>Darllenwyd y diweddariad ysgrifenedig.<br><br>Bydd y darnau olaf yn agor ym mis Mawrth, a bydd yr agoriad mawreddog yn cael ei gynnal ym mis Mai (ar ôl etholiadau'r Senedd). Bydd seddi'n cael eu gosod cyn agor y darnau olaf ac mae biniau wrth bwyntiau mynediad wedi'u cymeradwyo.<br><br>Diweddariad wedi'i groesawu gan yr aelodau<br><br>Awgrymodd PS fod y llwybr yn cael ei ymestyn o Abergwili i Gaerfyrddin, gan symud dechrau'r llwybr i Dref Caerfyrddin.<br><br>Codwyd sawl pryder ynghylch ymddygiadau cerddwyr cŵn ar hyd y llwybr, e.e. defnydd tennyn estynadwy, dim ystadegau ar gael ar gyfer digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chŵn.<br><br>Tynnodd MH sylw at ganllawiau mewn perthynas â chŵn yn cael y cyfle i 'redeg yn | MH/RL |

| | |
|---|---|
| rhydd'.<br><br>Nodyn cyngor Fforwm Mynediad Lleol a awgrymwyd ynghylch: rheoli cŵn ar Lwybr Dyffryn Tywi. | |
| **<u>EITEM 4 – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y STRATEGAETH FARCHOGAETH</u>**<br><br>Mae CF wedi cwrdd â BHS yn dilyn cymeradwyaeth y strategaeth i drafod y camau nesaf.<br><br>Cynigiodd BHS gymorth i annog gweithredu ar gyfer grwpiau defnyddwyr a gwirfoddolwyr y manylir arno yn y strategaeth.<br><br>Yn wreiddiol roedd y deunyddiau cyfathrebu i fod yn barod ym mis Ionawr ond disgwylir i hyn ddigwydd ym mis Mawrth oherwydd oedi wrth gyfieithu dogfen cyn y gellir ei chyhoeddi ar-lein.<br><br>Awgrymodd yr aelodau y gallai grwpiau llwybrau ceffylau presennol fwydo i mewn i Grŵp Defnyddwyr.<br><br>Ymholiad ynghylch: beth sy'n cael ei wneud gyda data llwybrau ceffylau presennol. Mae'r strategaeth yn llawer ehangach na dim ond ailagor llwybrau ceffylau, ond mae data materion yn cael ei gasglu a bydd yn bwydo i brosiectau gwella.<br><br>Mae'r Strategaeth Diogelwch Ffyrdd newydd yn tynnu sylw at bwysigrwydd mwy o ddarpariaeth oddi ar y ffordd i'r holl ddefnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed. Nid yw'r ymgynghoriad Teithio Llesol cyfredol yn sôn am farchogion er bod canllawiau'r DU yn cynnwys marchogion ym maes Teithio Llesol.<br><br>Mae yna anghydfod ymhlith aelodau bod canllawiau yn berthnasol i'r DU. Mae rhai yn awgrymu eu bod yn ganllawiau i Loegr yn unig. I'w gadarnhau | Pawb |
| **<u>Eitem 5 – ADRODDIAD PERFFORMIAD HTC</u>**<br><br>Nid oes unrhyw adroddiadau wedi'u llunio ar gyfer y chwarter hwn oherwydd uwchraddiad i'r gweinydd a gafodd effaith ar dempled yr adroddiad.<br><br>I'w llunio'n ddiweddarach a'u dosbarthu drwy e-bost. | CF |
| **<u>Eitem 6 – Cilffyrdd Cydweli</u>**<br><br>Gofynnwyd i aelodau'r Fforwm ailystyried asesiad risg a luniwyd mewn perthynas â BOAT 11/8, Cydweli.<br><br>Daeth asesiad risg annibynnol 2022 i'r casgliad y byddai ailagor llwybr i'r holl ddefnyddwyr yn cyflwyno lefel annerbyniol o risg.<br><br>Roedd gan aelodau'r Fforwm farn gryf y gallai liniaru risg yn ddigonol. | |

| | |
|---|---|
| Aelodau i ddarparu'r holl awgrymiadau lliniaru i CF fel y gellir eu hystyried gan y tîm Rheoli Traffig - Cyflawnadwy? Fforddiadwy?<br><br>Awgrymodd DG y byddai GLASS yn ystyried cyllido mesurau lliniaru cyflawnadwy.<br><br>Awgrymiadau lliniaru i'w cyflwyno i'r Tîm Rheoli Traffig, canfyddiadau i'w rhannu.<br><br>Yn y cyfamser, mae aelodau'r Fforwm yn hapus i'r llwybr gael ei ystyried ar gyfer Gorchymyn Rheoleiddio Traffig dros dro i adlewyrchu'r cyflwr presennol.<br><br>Penderfyniad i symud trafodaeth ehangach ar brosiect Cilffyrdd Cydweli i gyfarfod y Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd i ystyried cynigion yn fanwl, Cilffyrdd Cydweli ar agenda nesaf y Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd. | PAWB<br><br><br><br>CF<br><br>CF/<br>Priffyrdd<br><br>CF |
| **<u>Eitem 7 - CYNNAL A CHADW PONTYDD CSC</u>**<br><br>Awgrym eitem agenda KB – ymholi am gynnal a chadw a rheoli strwythurau/asedau pontydd CSC.<br><br>Amlinellodd CN y drefn sefydledig o arolygiadau wedi'u trefnu ar gyfer pontydd Priffyrdd (yn unig). Cadarnhaodd gyllideb benodol Pontydd ar gyfer arolygu, cynnal a chadw, atgyweirio ac ailosod.<br><br>Trafododd y grŵp wahaniaethau mewn rheoli pontydd ar draws gwahanol adrannau ac awgrymodd werth cael un pwynt cyswllt canolog ac adran gyfrifol am faterion / pryderon ar bontydd CSC.<br><br>Dim camau wedi'u hawgrymu. | |
| **<u>Eitem 9 – CAMAU YN CODI O GOFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF</u>**<br><br><u>Eitem 6 – Diweddariad ynghylch prosiectau HTC</u><br><br>Camau gweithredu AM ynghylch: cydweithio gyda BHS/TRF, dim diweddariad wedi'i ddwyn i'r cyfarfod, CF i drafod gydag AC a rhoi gwybod am y sefyllfa bresennol.<br><br><u>Eitem 9 – Cysylltiad Grid Ffermydd Gwynt – effaith ar fynediad</u><br><br>Cam gweithredu MH/RL heb ei gwblhau eto, trafodaeth wedi'i gohirio i'r cyfarfod nesaf.<br><br><u>Eitem 12 – Cyfrifoldebau aelodau'r Cabinet</u><br><br>Manylion portffolio'r cabinet heb fod ar gael eto, CF i roi diweddariad.<br><br><u>Eitem 13 – Logo Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin</u><br><br>Logo Fforwm Mynediad Lleol, CF heb ei dderbyn gan MH. Ar ôl ei dderbyn, bydd CF yn ei anfon at yr uned gyfieithu | <br><br><br><br>CF<br><br><br><br>MH/RL<br><br><br><br>CF<br><br><br>MH/CF |
| **<u>Eitem 10 – UNRHYW FUSNES CYMWYS ARALL</u>**<br><br>Trafodwyd digwyddiad Gwirfoddolwyr arolygu HTC diweddar, llwyddiannus iawn.<br><br>Strategaeth Gorfodi i'w chyflawni 2026 – Ymgynghorir â'r Fforwm Mynediad Lleol ar ddogfen ddrafft | |

| | |
|---|---|
| Rhaid trefnu cyfarfod y Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd cyn gynted â phosibl.<br><br>Ymgysylltu parhaus â gwirfoddolwyr, sut olwg fydd ar fodel gwirfoddolwyr yn y dyfodol, dim llawer o fanylion ar gael ar rolau yn y dyfodol. Awgrymwyd cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y Fforwm.<br><br>Asesiad Cofnodion Priffyrdd, pa gam sydd wedi'i gyrraedd, pa ganlyniadau sydd wedi'u cyflawni. Diweddariad ysgrifenedig i'w rhannu/cyflwyno i'r Fforwm. | CF<br><br>CF/AM<br><br>CF/CN |
| **<u>Y Cyfarfodydd Nesaf</u>**<br>8 Ebrill 2026 – 3.30pm Llandeilo<br>Gorffennaf 2026 – i'w gadarnhau<br>Hydref 2026 – i'w gadarnhau<br>Ionawr 2027 – i'w gadarnhau | |